



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-P – KS/1132/16

Rhodri Glyn Thomas
Llywydd
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

24 Mawrth 2016

Annwyl Rhodri

Llythyr Cylch Gorchwyl Llyfrgell Genedlaethol Cymru – 2016-17

Mae'r llythyr hwn yn pennu y blaenoriaethau strategol ar gyfer cyllido Llyfrgell Genedlaethol Cymru (Llyfrgell) gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2016-17.

Hoffwn longyfarch y Llyfrgell ar eich llwyddiannau mewn meysydd amrywiol yn ystod 2015-16; gan gynnwys: ehangu eich cynllun gwirfoddoli; rhoi system newydd ar waith i reoli'r llyfrgell, wedi'i chaffael ar y cyd; cyrraedd statws achrededig ym maes archifau; cyfrannu at lwyddiant y rhaglen *Cyfuno* a chwblhau dau brosiect seilwaith cyfalaf mawr sydd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru; Prosiect Datblygu'r Cwrt ac adnewyddu'r Llyfrgell yn dilyn y tân ym mis Ebrill 2013.

Rwyf hefyd am gymeradwyo cyfraniad parhaus y Llyfrgell at ddigwyddiadau thematig yn ystod 2015-16, gan gynnwys dathlu 150 mlynedd ers sefydlu'r 'Wladfa' ym Mhatagonia, a gweithgareddau parhaus i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf, i gefnogi'r Rhaglen Goffáu swyddogol yng Nghymru.

Yn ogystal â'ch gwaith creiddiol fel a amlinellir yn eich Siarter, dyletswyddau statudol sy'n gysylltiedig ag adnewo cyfreithiol a chofnodion cyhoeddus, a'r gweithgareddau o dan flwyddyn olaf eich strategaeth *Gwybodaeth i Bawb*, mae fy mlaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn a ddaw wedi'u pennu isod.

Rwy'n annog y Llyfrgell i barhau â'r trafodaethau ystyrlon gyda'r staff a chynrychiolwyr yr undebau llafur, sydd wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wrth ichi symud tuag at drafod tâl a materion staff.

Mae'n rhaid i gorff a noddir fel y Llyfrgell barhau i ddefnyddio eu cryfderau a'u harbenigedd unigol i wneud gwahaniaeth bendant i fywydau pobl ledled Cymru. Mae'n hanfodol fod y sector diwylliannol yn parhau i ddangos ei fod yn berthnasol i'r gwaith o wella bywydau unigolion, yn enwedig trwy ymgysylltu'n rhagweithiol â'n cymunedau mwyaf difreintiedig i fynd i'r afael â materion megis tloidi.

Hoffwn i'r Llyfrgell ddarparu amserlen o'r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio gennych a gwaith allgymorth ledled Cymru, yn ôl rhanbarth ac/neu ardal awdurdod lleol, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Yr wyf yn awyddus i weld safonau rhagorol o ran gwasanaeth cwsmeriaid yn cael eu darparu gan ein sefydliadau cenedlaethol, a byddem yn croesawu rhagor o fanylion o'ch ymdrechion parhaus i warantu gwasanaethau o safon uchel.

Yng nghyd-destun y cyfnod ariannol heriol hwn, mae'n hynod bwysig bod gwahanol sefydliadau yn cydweithio i fanteisio i'r eithaf ar sgiliau, adnoddau ac arbenigedd, ac i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i bobl Cymru yn fwy cynaliadwy. Mae hefyd yn hanfodol bod ein cyrff diwylliannol yn parhau i fynd ar ôl buddsoddiadau ac yn eu denu o ffynonellau cyllido ehangach i ychwanegu at y Cymorth Grant craidd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n ofynnol i bob corff a noddir (megis y Llyfrgell) sy'n cael eu cynnwys yn y Ddeddf *Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* newydd ddatblygu a chytuno ar amcanion llesiant erbyn Mawrth 2017, ac i integreiddio y pum dull allweddol o weithio.

Rwyf am i'r uchod gael ei adlewyrchu yn eich Cynllun Gweithredu drafft ar gyfer 2016-17, y dylai Lywodraeth Cymru ei dderbyn gennych erbyn 31 Mai 2016, er mwyn i'r amcanion, y targedau a'r dangosyddion perfformiad o fewn y cynllun gael eu cymeradwyo.

Mae Atodiad 1 y llythyr hwn yn cadarnhau lefel y Cymorth Grant ar gyfer y flwyddyn, ac yn cynnwys ffigur incwm fel targed. Dylech nodi eich ffigur incwm gwirioneddol inni bob chwarter, yn ogystal â ffigur rhagolygol ar gyfer y flwyddyn yn llawn. Mae gennym hawl i ddal elfen o'ch cyllid Cymorth Grant yn ôl os nad ydym yn fodlon â'r cynnydd yr ydych yn ei wneud i gynyddu eich incwm.

Er fy mod yn sylweddoli bod eich cyllideb ar gyfer 2016-17 yn llai, hoffwn bwysleisio fy mod yn teimlo bod yr agenda gydraddoldeb yn bwysig iawn. Rwyf felly yn gofyn ichi sicrhau na fydd y ffordd yr ydych yn delio â'r gostyngiad hwn yn y gyllideb yn cael effaith negyddol anghymesur ar unrhyw un o'r grwpiau cydraddoldeb sydd â nodweddion wedi'u diogelu a chymunedau difreintiedig, a'i fod yn seiliedig ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

Blaenoriaethau

1. Gweithredu

Yn unol â strategaeth *Gwybodaeth i Bawb* y Llyfrgell, rwy'n eich annog i barhau i ehangu mynediad i gasgliadau a gwasanaethau y Llyfrgell, ac i hyrwyddo cyfranogiad a'r cysylltiad â diwylliant a threftadaeth Cymru, yn arbennig ymysg cymunedau difreintiedig a grwpiau lleiafrifol.

- Rhoi cyfle i unigolion mewn cymunedau mewn rhannau eraill o Gymru ddefnyddio gwasanaethau, adnoddau a chasgliadau'r Llyfrgell Genedlaethol yn eu cymunedau lleol
- Darparu gweithgareddau yn seiliedig ar y casgliadau mewn cymunedau lleol i ysbrydoli a sbarduno dysgwyr o bob oedran

- Creu cyfleoedd i unigolion fanteisio ar brofiad 'ymarferol' gan ddefnyddio'r casgliadau cenedlaethol, a datblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth, datblygu personol a gyrfaol drwy wirfoddoli.

2. Trechu Tlodi

Rwy'n falch iawn bod y Llyfrgell yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gynllunio a gweithredu'r fenter *Cyfuno: Trechu Tlodi trwy Ddiwylliant* i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â thlodi mewn cymunedau difreintiedig. Caiff y gwaith hwn ei fonitro gan y Bwrdd Diwylliant a Chynhwysiant Cymdeithasol, y mae'r Llyfrgell yn aelod ohono.

- Parhau i weithio gyda chynulleidfaoedd sy'n flaenoriaeth a chefnogi gweithgareddau yng nghlystyrau Ardal Arloesi Cymunedau yn Gyntaf, fel rhan o'r fenter *Cyfuno* ehangach;
- Cefnogi dysgu ffurfiol drwy ddatblygu cynnwys digidol o safon uchel ac adnoddau addysgol yn y Gymraeg a'r Saesneg; gan gynnwys deunydd i gefnogi elfennau y Prosiect Unigol a Datblygu Sgiliau y Fagloriaeth Gymreig newydd
- Ystyried dull y fenter *Dosbarth Busnes* i ddatblygu cysylltiadau cynaliadwy rhwng cyflogwyr lleol ac ysgolion; ac edrych a allai'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan y Llyfrgell gefnogi *Ysgogwch eich Dyfodol* (a ddarparwyd gan chwech o brosiectau rhanbarthol mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, ysgolion a chyflogwyr lleol) sy'n cynnig ymyraethau wedi'u targedu i sicrhau bod mwy o ymgysylltiad â phobl ifanc sy'n cael eu hadnabod fel rhai sy'n NEET o bosib.

3. Cynaliadwyedd a sicrhau cymaint â phosib yn ôl o fuddsoddiadau

Mae sicrhau cymaint â phosib yn ôl o fuddsoddiadau a chynyddu buddsoddiadau allanol mewn gweithgareddau treftadaeth diwylliannol yn fwyfwy pwysig yn yr hinaswdd ariannol presennol, er mwyn ychwanegu at gyllid y Cymorth Grant a chynyddu cynaliadwyedd sefydliadau. Hoffwn i'r Llyfrgell:

- Gynyddu'r cyfleoedd i ddenu buddsoddiad allanol yng ngweithgareddau'r Llyfrgell drwy ffyrdd ychwanegol, drwy ddyngarwch, codi arian a chreu incwm;
- Parhau gyda gwaith y Llyfrgell i ddatblygu a gweithredu cynllun benthyca celf ar gyfer partneriaid masnachol
- Cwblhau'r broses o ail-drefnu staff mewnol, adnoddau a chyfleusterau y Llyfrgell, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau craidd a gweithgareddau sy'n flaenoriaeth yn fwy cynaliadwy
- Gweithio gyda'r Comisiwn Brenhinol a Llywodraeth Cymru yn ystod y broses o gyd-leoli staff y Comisiwn a deunydd Cofnodi Henebion Cenedlaethol o fewn adeiladu y Llyfrgell Genedlaethol yn ystod 2016-17.

4. Gweithio mewn partneriaeth o fewn y sector treftadaeth ddiwylliannol

Mae gan y Llyfrgell swyddogaeth bwysig o fewn y sector treftadaeth ddiwylliannol fel un o'n sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol cenedlaethol, yn rhannu arbenigedd, a helpu i gydweithio i ddatblygu sgiliau a seilwaith o fewn y sector ehangach. Mae gweithio mewn partneriaeth yn hynod bwysig yng nghyd-destun y cyfyngiadau ar y gyllideb a lleihau cyllid gwasanaethau archifau a llyfrgell sy'n cael eu rheoli gan awdurdodau lleol ledled Cymru.

- Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a llyfrgelloedd a gwasanaethau archif lleol ac academaidd ar ddatblygu a darparu unrhyw strategaeth llyfrgell neu archif i Gymru yn y dyfodol, fel a gytunwyd yn y cynlluniau cyflawni ar gyfer y strategaethau hyn, ac yn unol â chytundebau partneriaeth ar gyfer prosiectau penodol;
- Arwain ar ddatblygu y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Digidol cenedlaethol, gan weithio mewn partneriaeth â llyfrgelloedd yng Nghymru i gynnig mynediad cyson a chanolog i adnoddau digidol i ddefnyddwyr llyfrgelloedd
- Darparu arweinyddiaeth strategol mewn cadwraeth ddigidol, a gweithio gyda phartneriaid eraill y sector i gynllunio seilwaith cenedlaethol i gefnogi gweithgareddau cadwraeth a chadwraeth ddigidol yng Nghymru
- Parhau i chwarae rhan amlwg yng ngwasanaeth ffederal *Casgliad y Werin Cymru*, sy'n wasanaeth treftadaeth ddigidol, sy'n galluogi ac yn annog pobl i ddatblygu sgiliau cymunedau ac i fod yn rhan o ddiwylliant a threftadaeth Cymru; ac ychwanegu at y berthynas o gydweithio a sefydlwyd gyda'r Amgueddfa Genedlaethol a'r Comisiwn Brenhinol.

5. Cefnogi Brand Cymru a thwristiaeth ddiwylliannol

Dwi'n awyddus i weld ein safleoedd diwylliannol a thwristiaeth, yn gyhoeddus a phreifat, yn cynnig gwasanaeth mwy integredig i'r cyhoedd ar draws darparwyr, gan hybu Cymru fel cyrchfan o safon uchel i dwristiaid.

- Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar ein cynlluniau ar gyfer 'blynyddoedd â themâu', gan gynnwys 'Blwyddyn Antur' yn 2016 yn ogystal ag amserlenni arddangosfeydd a gweithgareddau. Bydd yr arddangosfeydd perthnasol yn ystod 2016 yn cynnwys *'Antur ar bob Tudalen'* yn canolbwyntio ar darddiad a datblygiad storïau antur mewn llenyddiaeth Gymraeg ac Eingl-Gymreig; a'r arddangosfa ar Girl Guides yng Nghymru, gyda gweithgareddau cysylltiedig, gan gynnwys cysgu dros nos;
- Cyfrannu at bartneriaethau a mentrau cenedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo Cymru, ein treftadaeth a'n diwylliant. Mae hyn yn cynnwys darparu rhaglenni i gyd-fynd â'r rhaglen genedlaethol amlwg i goffáu y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru - *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918.

Yn gywir



Ken Skates AC / AM

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Atodiad 1

Cymorth Ariannol:

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r Cyllid Grant canlynol i Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn 2016-17 i ddarparu'r blaenoriaethau a amlinellir yn y llythyr hwn:

Refeniw	Cynlluniau 2016-17 £000
Costau Rhedeg	9,681
Derbyniadau Cyfredol	-420
Dibrisiant*	1,250
Cyfanswm	10,511

* Mae Dibrisiant yn eitem nad yw yn arian parod ac felly nid yw ar gael i'w dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn

Cyfalaf	Cynlluniau 2016-17 £000
Cyfalaf (gwaelodlin)	550
Prosiect effeithiolrwydd ynni Buddsoddi i Arbed	-25
Cyfanswm	525

Cyfanswm Cymorth Grant 2016-17	11,036
---	---------------

Cyllid ychwanegol nad yw'n Gymorth Grant sydd eisoes wedi'i neilltuo i gynnal gweithgareddau penodol:

Refeniw	Cynlluniau 2016-17 £000
Gweithgareddau Coffáu y Rhyfel Byd Cyntaf	20

Targed cynhyrchu incwm Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar gyfer 2016-17: £660,000

Telerau ac Amodau Cyllid Grant:

Mae trefniant cyllido y Llyfrgell gyda Llywodraeth Cymru (y ddogfen Fframwaith) yn pennu manylion y berthynas noddi a'r telerau a'r amodau sydd gan Lywodraeth Cymru wrth ddarparu Cymorth Grant i'r Llyfrgell a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cymorth Grant yn cael ei ddarparu i'r Llyfrgell o dan Adran 61 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r ddogfen Fframwaith hefyd yn pennu amrywiol ofynion gweithredu, ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau y Llywodraeth y mae'n rhaid i'r Llyfrgell gydymffurfio â hwy, yn ogystal â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau ei hun fel corff Siartiedig, Elusen Siartredig, a sefydliad cyhoeddus yng Nghymru. Fel a nodwyd yn y Ddogfen Fframwaith, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru yw is-adran noddi y Llyfrgell, ac mae'n monitro cynnydd y Llyfrgell yn erbyn targedau a cherrig milltir allweddol drwy gyfarfodydd chwarterol.

Atodiad 2

Cynnwys Strategol:

Fel a nodwyd yn Siarter Brenhinol Atodol 2006, nod y Llyfrgell yw casglu, cofnodi a rhoi mynediad i bob math a ffurf o wybodaeth wedi'i gofnodi, yn enwedig yn gysylltiedig â Chymru a'r Cymry a phobl Geltaidd eraill, er lles y cyhoedd, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cynnal gwaith ymchwil ac yn dysgu. Fel un o'r 6 llyfrgell adnau cyfreithiol o fewn Prydain a Gweriniaeth Iwerddon, mae gan y Llyfrgell yr hawl i gasglu copïau o'r holl waith sydd wedi ei argraffu a'i gyhoeddi ym Mhrydain. Yn ogystal â bod yn gorff sydd â Siarter Brenhinol ac yn Elusen Gofrestredig mae'r Llyfrgell hefyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Llyfrgell wedi ymrwymo i sicrhau y caiff bawb yng Nghymru elwa o gael mynediad i'r gwasanaethau a'r adnoddau gwerthfawr sy'n cael eu darparu gan y gwasanaethau yn ein llyfrgelloedd a'n harchifau, gan gynnwys y Llyfrgell Genedlaethol. Mae gan y Llyfrgell swyddogaeth hollbwysig o ran cyflawni'r ymrwymiad pwysig hwn a chefnogi is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru i ddatblygu a darparu polisi ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yng Nghymru.

Mae'r Llyfrgell yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddarparu'r ymrwymadau canlynol yn y *Rhaglen Lywodraethu*:

- Parhau i gynnig mynediad di-dâl i Lyfrgell Genedlaethol Cymru er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl;
- Datblygu potensial cyfryngau digidol i hybu diwylliant drwy gyfrwng Casgliad y Werin a mentrau ar-lein eraill.
- Cryfhau'r cydweithio rhanbarthol wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau a sicrhau bod awdurdodau lleol yn bodloni safonau cenedlaethol o ddarparu llyfrgelloedd i'r cyhoedd.

Mae synergedd clir hefyd rhwng gwaith y Llyfrgell ac agenda ehangach Llywodraeth Cymru, ac mae'n cyfrannu at y meysydd canlynol yn y *Rhaglen Lywodraethu*:

- Diwylliant a Threftadaeth Cymru
- Addysg
- Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru
- Cydraddoldeb
- Trechu Tlodi
- Twf a Swyddi Cynaliadwy

Cyfrifoldebau Statudol

Mae gan y Llyfrgell ddyletswyddau statudol ac ymrwymadau penodol ar gyfer mathau penodol o ddeunydd casgliadau o dan y darnau canlynol o ddeddfwriaeth y DU:

- Deddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003 a Rheoliadau Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol (Cyhoeddiadau Heb eu Hargraffu) 2013
- Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958

ac mae ganddi gyfrifoldebau am ddsbarthiadau rheoledig eraill o gofnodion

Atodiad 3

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ddarn pwysig o ddeddfwriaeth i Lywodraeth Cymru ac mae'n ei wneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n cael eu rhestru yn y Ddeddf feddwl mwy yn yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau â'i gilydd, ceisio rhwystro problemau ac ymateb ar y cyd.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd llesiant sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a chyrff eraill sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau yn y Ddeddf bennu amcanion llesiant sy'n sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint â phosib at yr amcanion hynny ac i gymeryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r Ddeddf yn pennu'r egwyddor datblygu cynaliadwy hefyd, sy'n datgan bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod modd bodloni anghenion cyfredol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion. I'n helpu i weithredu hyn, mae'r Ddeddf yn pennu pum ffordd o weithio, a gofynnir i ni fabwysiadu;

- Hir dymor - Sicrhau ein bod yn cydbwysu'r angen i annerch gofynion byrdymor, gyda'r gallu i gyrraedd gofynion hirdymor
- Rhwystro - Gweithredu i osgoi problemau, yn hytrach na delio â'r canlyniadau
- Integreiddio - Gweithredu i helpu cyrff eraill i gyflawni'r cyrchnodau o fewn y Ddeddf ac osgoi gwneud unrhyw beth fyddai'n rhwystro nhw rhag gwneud hynny.
- Cydweithio - Gweithio gydag eraill o fewn, neu tu allan ein sefydliad i helpu cyrraedd y nod.
- Ymglymiad - Cadarnhau ein bod yn ymwneud â phobl sydd â diddordeb cyflawni'r amcanion llesiant a chadarnhau fod y bobl yma yn ystyried amrywiaeth y bobl rydym yn eu gwini.

Fel un o'r cyrff cyhoeddus sy'n gorfod cyflawni dyletswyddau'r Ddeddf, rwy'n disgwyl i'r Llyfrgell Genedlaethol Cymru fabwysiadu dull arloesol blaenllaw o ddehongli a chyflawni ein rhaglen weithredu. Yn eich Cynllun Gweithredu ar gyfer 2016/17 mae'n rhaid ichi:

- a) Amlinellu'r camau fyddwch yn eu cymryd i bennu a chyhoeddi amcanion ("amcanion llesiant") erbyn Mawrth 2017 sydd wedi eu cynllunio i wneud y mwyaf o'ch cyfraniad i gyrraedd y nodau llesiant.
- b) Cymeryd pob cam rhesymol, wrth gyflawni eich swyddogaethau, i fodloni'r amcanion hynny
- c) Defnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio i bopeth a wnewch.

Byddaf yn disgwyl i'ch dull o weithredu'r Ddeddf a sut yr ydych yn cydweithio ag eraill tuag at y nodau, fod yn ganolbwynt trafodaethau nawdd rheolaidd.